**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**
**DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 7fed Tachwedd, 2019

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Bob Connah, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** David Hytch a Lynn Bartlett

**YN Y CYFARFOD AR RAN AELOD ARALL:** Cynghorydd/Cynghorwyr:

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Bernie Attridge ac Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Prosiect) Prif Archifydd (Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint) ar gyfer cofnod 30 a Rheolwr Gweithrediadau (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint) ar gyfer cofnod 31.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd.

## 24. Y DIWEDDAR CYN-GYNGHORYDD NIGEL STEELE-MORTIMER

Cyn dechrau'r cyfarfod cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist bod Nigel Steele Mortimer wedi ein gadael, cyn-Gynghorydd uchel ei barch, Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr ac Aelod Gweithredol Addysg. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymweliad gan Nigel fel Aelod Gweithredol i Ysgol Castell Alun a gafodd ei werthfawrogi'n fawr. Roedd yn ddyn uchel ei barch a chyda pharch at bawb a gwahoddwyd yr Aelodau i rannu eu hatgofion o Nigel.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie ei fod wedi synnu ac yn drist iawn o glywed y newyddion. Roedd Nigel yn gydweithiwr gwych ac yn Aelod Gweithredol o'r pwyllgor hwn yn ystod cyfnod pan y bu'n rhaid ystyried materion cynhennus. Roedd yn ŵr bonheddig, ystyrlon am yr hyn yr oedd yn ei ddweud a gallai fod yn gadarn pan fo'r angen i gyfleu ei safbwynt ond roedd ganddo barch at eraill bob amser.

Talodd y Cynghorydd Patrick Heesom deyrnged i Nigel gan ddweud ei fod yn Aelod rhagorol o'r Cyngor gyda meddwl gwleidyddol gwych ond nad oedd hynny wedi effeithio ar ei rôl fel Aelod Gweithredol. Roedd dyled y pwyllgor hwn

a’r Cyngor yn fawr iddo am ei waith fel Aelod Gweithredol. Byddwn yn trysori ei atgof.

Ategodd yr Arweinydd at yr holl sylwadau gan ddweud er gwaethaf eu gwahaniaethau gwleidyddol roedd yn cyd-dynnu'n dda gyda Nigel bob tro; aelod lleol rhagorol a chyn-Gadeirydd Archwilio.

Diolchodd y Cynghorydd Janet Axworthy i’r Aelodau am eu geiriau caredig. Roedd Nigel yn uchel ei barch yn y Grŵp Ceidwadol ac wedi byw gyda salwch hir a gwanychol gydag urddas.
Cafwyd munud o dawelwch er cof am y cyn-Gynghorydd Nigel Steele Mortimer.

## 25. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Yna adroddodd y Cadeirydd am y newid yn y Rhaglen. Roedd yr eitem Canlyniad Dysgwyr wedi'i symud i'r cyfarfod nesaf yn dilyn canllawiau ar faterion gweinidogion bod ymateb rhanbarthol cydlynol yn ofynnol nad oedd wedi'i baratoi eto.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr Aelodau at weithdy GwE sy'n cael ei gynnal ar 18 Tachwedd a fyddai'n rhoi cyfle i'r Aelodau drafod y newidiadau i'r mesuryddion perfformiad.

## 26. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 27. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie gymeradwyo’r argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Martin White.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 28. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Hysbysodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau bod yr holl gamau gweithredu wedi’u cwblhau. Roedd llythyr wedi’i anfon at Kirstie Williams AC gyda chopi wedi’i anfon ar e-bost at yr Aelodau Pwyllgor. Byddai unrhyw ymateb a dderbynnir yn cael ei ddosbarthu hefyd. Roedd cyfarfod arbennig y pwyllgor wedi’i drefnu ar gyfer dydd Gwener 22 Tachwedd am 11.00am i drafod adroddiad y Gyllideb cyn y Cyngor Sir; roedd eitem Cynllun canol blwyddyn y Cyngor wedi'i symud i'r cyfarfod hwnnw. Gofynnwyd i’r Aelodau nodi bod cyfarfod mis Rhagfyr wedi newid i ddydd Gwener 20 am 10.00am.

Cafwyd trafodaeth gyda’r Prif Swyddog yn ateb cwestiynau ac yn cytuno i gysylltu â’r Hwylusydd ac adolygu’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan Mr David Hytch.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen;

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau; a

(d) Bod yr Hwylusydd a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn cysylltu i sicrhau bod canlyniadau Arolwg Estyn yn cael eu datrys yn briodol yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**29. CYNLLUN GWEITHREDU ÔL AROLWG ESTYN**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad a oedd yn dilyn yr Arolwg Llawn gan Estyn a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Yn dilyn ymlaen o hyn cytunodd i gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor yn canolbwyntio ar sut y byddai'r Cyngor yn rheoli'r argymhellion yn y portffolio ac roedd Cynllun Gweithredu ôl Arolwg drafft gyda'r adroddiad, a oedd yn y broses ymgynghori ar hyn o bryd, Aeth y Prif Swyddog ymlaen i egluro y byddai'r cynlluniau busnes yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r blaenoriaethau er mwyn gallu cyflawni'r argymhellion ac amlinellu sut yr oedd y cynlluniau busnes wedi'u rhannu i sicrhau bod y camau gweithredu yn gadarn, yn haws eu monitro a'u craffu yn y Pwyllgor.

Ar ôl craffu'r Cynllun byddai'n cael ei rannu gyda'r Penaethiaid i gael eu sylwadau ac yna'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo. Byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu bob hanner tymor ond gan fod nifer o gamau gweithredu a dyddiadau darparu cynigwyd bod terfyn amser o 12-18 mis ar gyfer darparu'r blaenoriaethau craidd yng Nghynllun y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at absenoldebau diawdurdod o'r ysgol. Eglurodd y Prif Swyddog mai cyfrifoldeb y rhieni oedd sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol a bod gan yr holl ysgolion bolisïau rheoli presenoldeb ar waith. Roedd Siarter yn cael ei chynhyrchu yn amlinellu beth y gall rhieni a disgyblion ei ddisgwyl gan ysgolion a'r awdurdod lleol a beth y gallai ysgolion ei ddisgwyl gan ddisgyblion a rhieni. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i herio rhieni a pheidio ag awdurdodi absenoldebau.

Gofynnodd Mr David Hytch gwestiynau am gylch gorchwyl y Grŵp Lles Emosiynol; rheolaeth cyllidebau ysgolion, gwaith y grŵp gorchwyl a rôl y swyddog adran 151. Ymatebodd y Prif Swyddog bod y Grŵp Lles Emosiynol yn gweithio ar draws portffolios a chyda sefydliadau allanol i fapio'r ymyraethau, adnoddau a chyllid sydd ar gael. Roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol yn ddiweddar i gefnogi Lles Emosiynol a

gofynnwyd i'r Cyngor amlinellu sut byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion.

O ran diffyg mewn cyllidebau, eglurodd y Prif Swyddog bod gan nifer o ysgolion uwchradd ddyledion, rhai yn sylweddol. Roedd y rhesymau'n gymhleth iawn ac yn risg ariannol i'r Cyngor. Amlinellodd y prosesau sydd yn eu lle i gefnogi ysgolion. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn cynnwys y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol fel y Prif Swyddog Ariannol neu Adran 151. Roedd wedi adolygu'r canllawiau a roddir i ysgolion yn ddiweddar a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn y Flwyddyn Newydd. Os yw'r ysgol wedi gwneud popeth o fewn ei gallu ond bod diffyg o hyd roedd cefnogaeth a chwmpas i'r Cyngor ymyrryd pe bai'r angen i reoli hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cwmpas i newid y fformiwla neu ychwanegu mwy o gyllid os oes angen. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai Fforwm Cyllideb Ysgolion yn adolygu'r tair fformiwla gyda chyllidebau ysgolion yn cael eu diogelu ond bod yn rhaid i ysgolion dderbyn costau. Roedd y Cyngor yn gofyn i LlC am fwy o gefnogaeth ar gyfer cyllid ysgolion.

Holodd y Cynghorydd Gladys Healey a fyddai rhieni sydd wedi gollwng eu plant yn yr ysgol, ond sydd yna wedi gadael yr ysgol, yn cael eu dwyn i gyfrif. Eglurodd y Prif Swyddog bod ysgolion yn cofrestru'r plant mewn dosbarthiadau ddwywaith y dydd i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn bresennol. Pe bai disgybl ar goll roedd gweithdrefnau yn eu lle: roedd hyn hefyd yn fater diogelu. O ran lles emosiynol, mae Swyddogion Lles Addysg yn ymweld ag ysgolion ac yn aml yn ymwybodol o faterion teuluol ac yn cynnal ymweliadau i'r cartref. Byddai hyn yn cael ei adolygu drwy'r Cynllun Gweithredu ac roedd yr ysgolion yn mynd i'r afael â hyn drwy beidio â chaniatau disgyblion i adael tir yr ysgol amser cinio.

Dywedodd Mrs Lynn Bartlett bod angen deall y data i nodi lle'r oedd problemau a gofyn a oedd ysgolion sy'n agos at bresenoldeb o 95% yn rheoli presenoldeb yn dda. Cytunodd y Prif Swyddog ond nododd bod rhai pryderon o hyd.

Yna darparodd y Prif Swyddog wybodaeth ar gynnydd yr argymhellion.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Kevin Hughes a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynllun gweithredu ôl arolwg drafft i'w gytuno gan y Cabinet; a

(b) Llongyfarchodd y pwyllgor y tîm am y gwaith a wnaed ganddynt.

## 30. PROSIECT ARCHIF AR Y CYD SIR DDINBYCH A SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Helen Vaughan –Evans (Rheolwr Prosiect ar y Cyd) a Phrif Archifydd Sir y Fflint a fyddai'n cyflwyno'r adroddiad yn amlinellu'r cynllun sydd i sicrhau bod dyfodol cadarn i Wasanaethau Archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint er mwyn cyflawni eu hymrwymiadau statudol.

Diolchodd y Rheolwr Prosiect i’r Aelodau am y cyfle i’w hannerch ac egluro ei fod yn brosiect ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Yn ystod y cyflwyniad byddai’n tynnu sylw at yr heriau y mae’r ddau Gyngor yn eu hwynebu a’r dulliau yr oeddent yn ceisio eu defnyddio i ddatrys y rhain. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:-

- Y cyfle yr ydym yn ceisio ei gyflawni
- Yr uchelgais yr ydym yn ceisio ei gyrraedd
- Roedd 3 elfen i’r prosiect
- Beth fyddai'r gost
- Pryd fyddai’n digwydd
- Beth fyddai Sir y Fflint yn ei dderbyn yn benodol
- Beth sy’n digwydd os nad ydym yn cyflawni’r prosiect

Cefnogodd y Cynghorydd Geoff Collett y prosiect ond holodd am y dosraniad costau. Eglurodd yr Arweinydd bod y costau yn seiliedig ar faint poblogaeth y ddwy sir, yn debyg i’r hyn a wneir ar gyfer GwE. Eglurodd y Rheolwr Prosiect bod ymchwil sylweddol wedi’i gyflawni ac mai'r dull tecaf oedd maint y boblogaeth o'r cyfrifiad. O ran yr ail bwynt, cadarnhaodd y byddai costau rhedeg a TG yn y dyfodol yn cael eu rhannu fel hyn.

Cefnogodd y Cynghorydd Tudor Jones y cynigion a gofyn cwestiynau ar raniad cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri, allgymorth digidol cynigion y Llyfrgell ac a roddwyd ystyriaeth i ymgorffori amgueddfa ar gyfer yr Wyddgrug a fyddai'n denu mwy o ymwelwyr i'r dref.

Ymatebodd y Rheolwr Prosiect bod y cyllid cyfatebol yn raniad o 60-40 gyda Sir Ddinbych yn cyfrannu £2m a Sir y Fflint yn cyfrannu £3m. Byddai Cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu 70% o gostau’r prosiect gyda’r 30% sy’n weddill – Sir y Fflint yn cyfrannu 60% a Sir Ddinbych 40%. Byddai’r dyluniad yn cynnwys gofod arddangos i arddangos trysorau lleol a chenedlaethol. Roedd diogelwch i fenthyca’r trysorau gwerthfawr hyn hefyd wedi'i gynnwys. Byddai mynediad at y ddarpariaeth ym mhob llyfrgell ond pe bai newidiadau, gallai darpariaeth o’r fath gael ei symud i leoliad arall yn yr ardal honno. Byddai hyn hefyd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r llyfrgelloedd.

O ran digideiddio deunyddiau, roedd hyn yn newid yn barhaus a’r cwsmer oedd y canolbwynt. Roedd hygyrchedd o gartref yn fuddiol ond byddai angen agwedd ymchwil gan efallai y byddai cofnodion yn y dyfodol yn gyfryngau digidol yn hytrach na llyfrau, felly roedd hyn wedi’i gynnwys yn y cynllun.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones a fyddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Aelodau i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw’n ddigidol yn y dyfodol ac fe gyfeiriodd at grŵp yr oedd yn rhan ohono lle bo’r cofnodion yn cael eu cadw ar ddisg yn unig. Cadarnhaodd y Prif Archifydd bod cadw cofnodion digidol yn cael ei ystyried ac adrodd ar Weithgor Digidol Cymru gyfan sy’n agos at gadarnhau cyfleuster storio cenedlaethol. Gellir rhoi cyngor i rai sy’n creu cofnodion fel grwpiau lleol, Cynghorau Tref a Chymuned ac ati a gellir cadw archifau digidol yn y mwyafrif o arddulliau.

Holodd y Cadeirydd a fyddai cyn lyfrgelloedd y Cyngor sy'n cael eu darparu gan y gymuned megis Mancot neu Fynydd Isa y tu allan i'r system. Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect y gallai sawl cymuned gysylltu â'r ddarpariaeth allgymorth y byddai'r prosiect yn ei ddarparu. Ar ôl cadarnhau'r cyllid, byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal i benderfynu beth yr oedd cymunedau ei eisiau gan y gwasanaeth hwn. Byddai Cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn creu swyddi ar gyfer y swyddogion sy'n mynd allan, datblygu a chreu gweithgareddau mewn cymunedau.

Gofynnodd Mr Hytch beth oedd ystyr 'Passivhaus' ac a fyddai'n gysylltiedig â'r Theatr. Gofynnodd hefyd pam fod yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio storfeydd masnachol ar hyn o bryd.

Eglurodd yr Arweinydd bod technoleg Passivhaus wedi'i ddylunio i gadw'r adeilad ar dymheredd cyson a chadw'r costau'n isel. Dewiswyd y model yn dilyn nifer o ymweliadau safle i gyfleusterau tebyg. Gobeithiwyd y byddai cyswllt i'r Theatr gan darparu mynediad i gwsmeriaid i'r siop a'r caffi yno. Eglurodd y Prif Archifydd fod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio ag ystod llym o amodau i storio archifau, gan gynnwys diogelwch. Nid oedd gan y cyngor adeilad arall y gellir ei ddefnyddio. Darparodd wybodaeth am y trefniadau storio presennol. Eglurodd y Rheolwr Prosiect sut y gallai'r prosiect hwn uno gyda datblygiad y Theatr ac eu bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

Cydnabu'r Cynghorydd Patrick Heesom y prosiect uchelgeisiol a chytuno nad yw'r adeilad ym Mhenarlâg yn addas i bwrpas ond nododd y gellir cael mynediad at cymaint o wybodaeth yn ddigidol yn awr. Roedd ganddo bryderon am y lleoliad ac roedd yn teimlo y dylai'r broses o archifo deunyddiau a sicrhau y gallai pobl gael mynediad at y wybodaeth honno fod yn ganolbwynt.

Ymatebodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu storfa ddiogel ar gyfer treftadaeth Sir y Fflint; roedd uno gwasanaethau archifau'r ddau gyngor yn waith sylweddol ond nid oedd yr un o'r adeiladau yn addas i bwrpas. Pan fyddai'r adeilad newydd wedi'i gwblhau byddai gan y cyngor yr ased o'r Hen Reithordy ym Mhenarlâg ac roedd trafodaethau ar y gweill ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol. Roedd y Prif Swyddog wedi cynnal trafodaethau gyda Llyfrgell Gladstone i sicrhau y cedwir presenoldeb ym Mhenarlâg. O ran elfennau Digidol, gobeithir y gallai'r holl lyfrgelloedd, ysgolion a cholegau gael mynediad atynt.

Eglurodd y Cynghorydd Heesom nad oedd yn gwrthwynebu'r prosiect ond bod angen iddo fod yn hygyrch, yn gweithio ac am y pris cywir. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod hwn yn gyfleuster storio archifau gyda'r tymheredd a'r lleithder wedi'i reoli gyda chapasiti ar gyfer anghenion y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Ian Smith yn llwyr gefnogi'r cynigion. Cyfeiriodd at gadwraeth ddigidol dogfennau a gofyn a oeddent yn cael eu cadw mewn gwahanol fformatau gan fod technoleg yn datblygu'n gyflym a weithiau roedd y dogfennau yn anodd iawn eu darllen. Cadarnhaodd y Prif Archifydd eu bod yn derbyn deunydd archif mewn nifer o fformatau gwahanol. Roedd sawl copi wedi'u cadw ar rwydwaith y Cyngor ac yn allanol

Holodd y Cynghorydd Tudor Jones a ellir cysylltu'r archif hwn gan y Cyngor gyda mewnrwyd y Cyngor a'i wneud yn hygyrch i blant mewn ysgolion.

Ymatebodd y Prif Archifydd eu bod yn creu gwefan archif ar y cyd ar gyfer y ddau wasanaeth ar hyn o bryd na fyddai'n aros am yr adeilad newydd ac a fyddai'n digwydd yn y flwyddyn nesaf.

Roedd y Cynghorydd Janet Axworthy yn credu bod hyn yn botensial buddsoddi cyffrous ar gyfer y dyfodol. Gwasanaethau a rennir oedd y ffordd ymlaen ac maent yn allweddol er mwyn caffael cymaint o fuddsoddiad â phosibl i sicrhau mynediad ac roedd cadwraeth y dogfennau gwreiddiol hyn yn allweddol. Roedd niferoedd y staff wedi gostwng dros y blynyddoedd ac roedd yn teimlo bod y defnydd o brentisiaethau yn hanfodol i sicrhau nad oedd sgiliau'n cael eu colli. Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Prosiect a'r Prif Archifydd am eu presenoldeb heddiw.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Kevin Hughes a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r model darparu gwasanaeth newydd a fydd yn:

(a) Creu Gwasanaeth Archif cynaliadwy ac a rennir gyda Chyngor Sir Ddinbych

(b) Darparu adeilad Archif 'o'r radd flaenaf', wedi'i gydleoli gyda Theatr Clwyd, gyda rhwydwaith archif digidol helaeth ar draws y ddwy sir a rhaglen ymgysylltu a chefnogaeth gyhoeddus arloesol.

**31. GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID SIR Y FFLINT - TROSOLWG**

Cyflwynodd y Prif Swyddog James Warr, Rheolwr Gweithrediadau, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a oedd o fewn y Darpariaeth Ieuenctid Integredig. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o gyfrifoldeb statudol y gwasanaeth hwn a oedd yn hynod bwysig ond a oedd hefyd yn cyflwyno sawl her.

Darparodd y Rheolwr Gweithrediadau drosolwg o waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n wasanaeth bychan o fewn y portffolio. Roedd yn ofynnol fod gan bob Awdurdod Lleol Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a fyddai'n amrywio yn seiliedig ar y boblogaeth ac anghenion y sefydliad. Roedd gan y gwasanaeth gylch gorchwyl eang sydd wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd. Yn wreiddiol roedd y gwaith yn ymwneud â gwaith llys a gorchmynion y llys ond roedd hyn wedi newid ac roedd yn awr yn canolbwyntio ar atal a chymorth yn gynnar i nodi a mynd i'r afael â materion yn gynnar yn ein cymunedau.

Yna darparodd y Rheolwr Gweithrediadau wybodaeth am Lywodraethu statudol drwy Ddeddf Trosedd ac Anrhefn a Bwrdd Rheoli Gweithredol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr gyda'r Prif Swyddog yn Is-gadeirydd. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'u partneriaid a oedd yn awr yn cynnwys mwy o sefydliadau. Roedd yn ofynnol bod y gwasanaeth yn darparu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid sy'n cael ei ddiwygio'n flynyddol. Arolygwyd y gwasanaeth gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer y Gwasanaeth Prawf ac roedd wedi derbyn arolygon ffafriol iawn yn y gorffennol. Eglurodd yr arolwg sydd i ddod,

blaenoriaethau’r gwasanaeth ac effaith camfanteisio troseddol megis llinellau sirol a chamfanteisio ar blant.

Roedd y gwasanaeth hefyd yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr ym maes addysg i leihau nifer y gwaharddiadau ac yn datblygu rhaglenni i wyro'r disgyblion rhag gwaharddiadau hir dymor a darparu ymyraethau i leihau'r perygl o gamfanteisio troseddol.

Yr her oedd gweithio gyda llai o adnoddau a pharhau i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned. Roedd risgiau a heriau ar gyfer y gwasanaeth gydag ansicrwydd o ran cyllid gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: fe gyrhaeddodd yn hwyr, ym mis Mehefin neu Gorffennaf a gafodd effaith enfawr ar y gwasanaeth ac amharu ar gynllunio effeithiol.

Roedd y Cynghorydd Dave Mackie yn cofio yr argraff dda gafodd y gwasanaeth arno pan gafodd ei ethol gyntaf. Dywedodd nad yw cyllid sy’n cyrraedd yn hwyr yn dderbyniol. Awgrymodd y dylid gwahodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fynychu'r Pwyllgor i egluro hyn. Roedd hefyd yn pryderu bod y Dadansoddiad lleol o fis Ionawr i fis Mehefin 2019 yn nodi nad oedd 27% o blant yn derbyn 25 awr yn yr ysgol ac roedd yn pryderu bod y canran yn uchel iawn.

Eglurodd y Rheolwr Gweithrediadau bod y dadansoddiad lleol ar gyfer 66 o bobl ifanc a bod maint y garfan wedi’i rannu gyda phobl ifanc a ddylai dderbyn addysg statudol a phobl ifanc ôl 16. Ar un adeg gallai hynny olygu wyth o bobl ifanc nad oeddent yn derbyn addysg. Nid oedd yn golygu nad oedd yn cael ei gynnig ac aeth ymlaen i egluro'r heriau gyda rhieni, rolau ysgolion a heriau eraill. Roedd cydnabyddiaeth o faterion ehangach megis caethwasiaeth fodern a llinellau sirol hefyd wedi’u cynnwys yn hyn.

O ran y cwestiwn am gyllid roedd hyn yn rywbeth yr oedd y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli wedi’u nodi flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod yr Awdurdod Lleol yn cymryd risg bod staff ar gontractau dros dro.

Dywedodd y Prif Swyddog y gallai’r pwyllgor ysgrifennu at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gan fod hyn yn risg sylweddol i’r gwasanaeth, gan greu ansicrwydd ar gyfer staff gyda’r gwasanaeth yna'n colli pobl dda oherwydd na ellir gwarantu eu dyfodol. Cytunodd y Cadeirydd a cheisio’r argymhelliad priodol ar gyfer hyn.

Roedd y Cynghorydd Geoff Collett yn pryderu am y cyfeiriad at ‘waith heb dâl’. Ymatebodd y Rheolwr Gweithrediadau fod y gwasanaeth yn cyflogi rheolwr prosiect a oedd yn ymweld â chymunedau i gaffael prosiectau ar gyfer pobl i gyflawni oriau o waith heb dâl ar gyfer eu gorchmynion llys neu warediad y tu allan i'r llys a darparu gwybodaeth ar y gwahanol brosiectau yn y cymunedau ac ysgolion.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey beth oedd yn cael ei wneud i addysgu ein pobl ifanc i beidio â chario cyllyll.

Nododd y Rheolwr Gweithrediadau bod yr ystadegau ar gyfer y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ac yn dangos troseddau a

chanlyniadau a gyflawnwyd ond roedd y ffigyrau yn newid yn barhaus, Roedd rhaglenni'n cael eu datblygu o fewn y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid ac yn gweithio gydag Addysg i ddarparu mynediad i ysgolion i'r rhaglenni hynny. Bu cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau a throseddau â chyllyll. Roedd ysgolion angen cefnogaeth gyda hyn ac fe gyflwynodd y gwasanaeth sawl dewis i'r Penaethiaid. Roedd Grŵp Gorchwyl Troseddau â Chyllyll wedi'i ffurfio i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle bo'u hangen. Byddai hyn yn galluogi defnyddio dull amlasiantaeth mewn ardal sydd mewn perygl i ddarparu sicrwydd ac ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny.

Eglurodd y Prif Swyddog bod hyn yn ychwaneg at y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a ddarperir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan y swyddog cyswllt ysgolion. Croesawodd y pwyslais yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei roi ar hyn mewn ysgolion yn awr hefyd.

Nododd y Cynghorydd Heesom ei fod yn adroddiad da iawn a'i fod yn llwyr gefnogi'r gwasanaeth hwn ond roedd problemau gwirioneddol o ran mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc y tu allan i'r ysgol oherwydd nid oedd cyllid ar gael.

Holodd y Cynghorydd Martin White a oedd cynrychiolaeth gan y Bwrdd yn y Ganolfan Iechyd Cynnar. Cadarnhawyd bod cynrychiolaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at fater llinellau sirol gan nodi nad oedd hyn yn broblem newydd ac y byddai'n bodoli o hyd. Dywedodd y Prif Swyddog bod y defnydd o dechnolegau newydd yn gwneud pethau'n anoddach. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithrediadau pan fo grŵp yn cael ei ddiddymu gan yr Heddlu roeddent yn addasu ac yn sefydlu llinell arall yn gyflym iawn. Roedd hyn yn anodd iawn i'r heddlu ac o ganlyniad roedd camfanteisio troseddol o bobl ifanc yn parhau.

Eglurodd Mr David Hytch bod thema waelodol o wasanaeth sydd wedi'i esgeuluso o ran cyllid a staffio. Efallai nad yw arfau mewn ysgolion yn broblem fawr ar hyn o bryd ond roedd angen ei atal cyn iddo waethygu. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithrediadau bod tîm hyfforddedig medrus iawn yn eu lle a bod y Bwrdd wedi'u cynorthwyo i dderbyn cyllid i gael y nifer cywir o staff ar gyfer y gwasanaeth.

Awgrymodd y Prif Swyddog y gallai'r Pwyllgor ysgrifennu llythyr yn mynegi pryderon o ran cyllid ond yn deall nad oedd Cadeirydd ar gyfer y bwrdd ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gweithrediadau am ei bresenoldeb ac i'r pwyllgor am ymgysylltu â'r eitem hon.

Cynigwyd y penderfyniad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Dave Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy.

Ymatalodd y Cynghorydd Heesom rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn mynegi cefnogaeth am y gwaith cadarnhaol a wnaed gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'i effaith ar blant a phobl ifanc; a

(b) Bod y Pwyllgor yn anfon llythyr at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i resynu cadarnhad hwyr y cyllid blynyddol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn Sir y Fflint.

**32. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.50 pm)

..................................................
**Cadeirydd**